PWYLLGOR RHANBARTH Y GOGLEDD

Adroddiad i'r Cynulliad 2002-03

1. Cyflwyniad

1.1 Un o bedwar Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad yw Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd. Mae'r rhanbarth yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Wrecsam a Gwynedd, sef Arfon a Dwyfor gynt.

1.2 Rhwng mis Gorffennaf 2002 a mis Mawrth 2003 bu Peter Rogers yn cadeirio'r Pwyllgor. Aelodau eraill y Pwyllgor yw Eleanor Burnham, Alison Halford, Ann Jones, David Ian Jones, Gareth Jones, John Marek, Tom Middlehurst, Alun Pugh, Janet Ryder, Karen Sinclair, Dafydd Wigley ac Ieuan Wyn Jones. Mae'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor ond nid yw'n mynd i'r cyfarfodydd yn rhinwedd ei rôl fel Llywydd. Etholwyd David Ian Jones i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd yn dilyn ymddiswyddiad Rod Richards o'r Cynulliad.

1.3 Cyfarfu'r Pwyllgor 4 gwaith rhwng mis Gorffennaf 2002 a mis Mawrth 2003. Mae manylion dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd, ynghyd â'r materion a drafodwyd a'r camau a gymerwyd, yn **Atodiad 1**.

2. Cylch Gorchwyl a Dull Gwaith

2.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 10.2, rôl y pwyllgorau rhanbarth yw rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol am faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, am effaith polisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny, ac am y gwaith y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud yn y rhanbarthau.

2.2 Mae'r Pwyllgor wedi parhau â'r dulliau gwaith a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd adrodd blaenorol. Trefnir cyfarfodydd ar sail un thema benodol a rhoddir pwyslais arbennig ar sicrhau bod y cyhoedd yn rhan o'r drafodaeth.

2.3 Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod ei waith yn cael ei fwydo yn ôl i waith ehangach y Cynulliad. Yn gyffredinol, yn sgil pob cyfarfod, mae'r Cadeirydd yn crynhoi'r materion a godwyd mewn llythyr at y Gweinidog perthnasol neu at Gadeirydd y

pwyllgor pwnc perthnasol. Ar ddechrau'r cyfarfod nesaf, rhoddir adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar unrhyw ymateb neu ganlyniad a gafwyd.

2.4 Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd gynhwysol. Mae nifer y bobl yn y cyfarfodydd wedi bod yn uchel gydol y flwyddyn, gyda chynulleidfa o 100 ar gyfartaledd a daeth rhyw 150 o bobl i'r cyfarfod yn Rhuthun. Yn ystod y cyfarfod diwethaf yng Nghaernarfon gwahoddwyd sylwadau'r cyhoedd ar waith y Pwyllgor hyd yma a gofynnwyd am awgrymiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

3. Gweithgareddau 2002-03

3.1 Yn ystod y flwyddyn adrodd trefnwyd cyfarfodydd ffurfiol ar y testunau canlynol:

- Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o Chwaraeon yng Nghymru;
- Partneriaethau gostwng troseddu lleol a mesurau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol, gyda Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;
- Rhaglenni amddiffyn rhag llifogydd yn y rhanbarth, gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Rhanbarthol Cymru;
- Gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru, gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol.

3.2 Gan fod Prif Weinidog Cymru yn gyfrifol am gydlynu polisi'r Gogledd, mae'r Pwyllgor wedi estyn gwahoddiad sefydlog iddo ddod i'w gyfarfodydd. Daeth Prif Weinidog Cymru i'r cyfarfodydd yn Amlwch a Rhuthun. Neilltuwyd rhan sylweddol o'r cyfarfodydd hynny ar gyfer sesiwn holi ac ateb rhwng y Prif Weinidog ac aelodau'r cyhoedd.

3.3 Yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol y Pwyllgor, trefnwyd pedair sesiwn friffio anffurfiol. Cyfarfu Aelodau'r Pwyllgor ag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru i drafod goblygiadau ei drefniant cyllido ar gyfer y rhanbarth. Roedd y tri sesiwn arall yn ymwneud â masnachfraint Cymru a'r Gororau a materion eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd: cyfarfu yn gyntaf gyda Fforwm Economaidd y Gogledd; yn ail gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a Virgin Rail; ac yn olaf gyda'r rhai a wnaeth gais am fasnachfraint Cymru a'r Gororau. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y

Gweinidog dros yr Amgylchedd yn nodi dyheadau'r Pwyllgor ar gyfer y gwasanaethau rheilffyrdd rhwng y Gogledd a'r De.

4. Y Flaenraglen

4.1 Dyma adroddiad olaf y Pwyllgor yn ystod y Cynulliad presennol. Gwahoddir y pwyllgor rhanbarth newydd i ystyried barn y cyhoedd a fynegwyd yn y cyfarfod diwethaf.

Peter Rogers AC
Mawrth 2003

DYDDIAD	LLEOLIAD	THEMA	CAMAU A GYMERWYD
1 Tachwedd 2002	Neuadd Goffa, Amlwch	Adolygiad o Chwaraeon yng Nghymru Sesiwn holi ac ateb Prif Weinidog Cymru	Anfonwyd y cofnodion i'r Pwyllgor Diwylliant fel cyfraniad i'w hadolygiad. Soniodd Prif Weinidog Cymru wrth ei gydweithwyr yn y Cabinet am bryderon a godwyd ynghylch amseru prosesau ymgynghori, y cod ymddygiad i gynghorwyr a ffioedd cyrsiau nos.
29 Tachwedd 2002	Coleg Glannau Dyfrdwy, Cei Connah	Gostwng troseddau a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol	Bu Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn ymateb i bryderon a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd.

DYDDIAD	LLEOLIAD	PWNC	CAMAU A GYMERWYD
31 Ionawr 2003	Theatr John Ambrose, Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun	Rhaglenni amddiffyn rhag llifogydd	Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn tanlinellu'r angen i adolygu'r cyfrifoldebau a'r trefniadau ariannu presennol ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd.
		Sesiwn holi ac ateb Prif Weinidog Cymru	Ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at Ganolfan Gynghori Dinbych ynghylch cymhwyso i deithio am bris consesiynol.

7 Mawrth 2003	Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon	Gwasanaethau rheilffyrdd Adolygiad o waith y Pwyllgor	Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog dros yr Amgylchedd gan amlinellu'r pryderon a fynegwyd ynghylch gwasanaethau rheilffyrdd. Byddai adborth gan aelodau'r cyhoedd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor sy'n ei olynu ar ôl yr etholiad.